Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Camau Cyntaf - First Steps Penrhiwceiber**

**The Cozy Cabin**
**Ysgol Gynradd Penrhiwceiber**
**Aberpennar**
**CF45 3YD**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

05/05/2023

# Camau Cyntaf - First Steps Penrhiwceiber

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Camau Cyntaf i Ddysgu C.B.C |
| Lleoedd cofrestredig | 30 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Nodi â Llaw]<br>Arolygiad ar ôl Cofrestru |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nodi â Llaw]<br>Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Rhagorol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn cyfathrebu'n hyderus. Maent yn gwneud dewisiadau a chânt gyfleoedd ardderchog i wneud penderfyniadau, a chaiff eu diddordebau eu gwerthfawrogi. Mae'r plant wedi setlo ac yn gyfforddus yn eu hamgylchedd. Cânt gyfleoedd i ddatblygu sgiliau annibyniaeth ac i brofi gweithgareddau sy'n berthnasol i'w hoedran ac sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol yn gyson.

Mae'r staff yn rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a llesiant plant. Maent yn wybodus ac yn dangos enghreifftiau o arfer da yn gyson. Mae'r rhyngweithio yn gyson, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd, ac mae ganddynt ddealltwriaeth ragorol o hawliau ac amrywiaeth y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da dan do ac yn yr awyr agored. Mae ganddynt fesurau a pholisïau effeithiol ar waith i sicrhau diogelwch y plant ac maent yn darparu amrywiaeth rhagorol o adnoddau o ansawdd i gefnogi datblygiad cyffredinol y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau ac yn sicrhau bob amser fod gofynion yn cael eu bodloni. Maent yn wybodus ac yn gyfrifol ac yn cadw ffeil gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau sy'n rhagori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi sefydlu partneriaethau cryf gyda'r ysgol gyfagos, y gweithwyr iechyd proffesiynol, y grwpiau clwstwr a chyda'r rhieni.

| **Llesiant** | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae'r plant yn teimlo'n hyderus i gyfleu eu dymuniadau a chaiff eu hanghenion eu hystyried. Cânt gyfleoedd rhagorol i wneud penderfyniadau a chaiff eu barn a'u diddordebau eu gwerthfawrogi. Mae'r plant yn dewis a ydynt eisiau chwarae dan do neu yn yr ardal awyr agored ac yn symud yn rhydd rhwng ardaloedd chwarae o'u dewis nhw, heb unrhyw gyfyngiadau amser. Er enghraifft, y cyfle i chwarae â cherrig yn y sinc isel a'r cês dillad sydd wedi'i addasu ar gyfer chwarae â thywod.

Mae'r plant yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn y lleoliad. Maent wedi setlo ac yn gyfforddus yn eu cartref. Mae'r hoffter a'r ymlyniad yn amlwg, ac mae'r plant yn sgwrsio'n hyderus wrth chwarae. Mae'r plant yn swatio ar soffa fach ac yn mwynhau cyswllt corfforol â'r staff tra bod straeon yn cael eu darllen ar lafar. Gwelsom y plant yn mwynhau'r amgylchedd hamddenol a'r cyfle i gymdeithasu gyda'i gilydd ym mhob agwedd ar y sesiwn. Hefyd maent yn dangos eu bod yn gyfforddus gydag ymwelwyr. Er enghraifft, daeth y plant yn siaradus iawn, wrth dangos eu sgiliau ar y ffrâm ddringo i ni.

Mae'r plant yn cyfathrebu'n agored â'i gilydd ac â'r staff. Mae'r rhyngweithio'n gyson dda ac mae'r plant yn ymgysylltu'n dda, gan ddangos diddordeb yn anghenion ei gilydd a chefnogi ei gilydd. Mae gan y plant ymdeimlad o berthyn ac maent wedi meithrin cydberthnasau agos gyda'u cyfoedion a gyda'r staff. Maent yn gyfarwydd â'r arferion ac yn mwynhau cyfathrebu am yr hyn sydd i ddod nesaf. Mae'r plant yn gyffrous i weld a threulio amser gyda'r holl staff a mynegi eu hunain yn hyderus ac yn ddigymell. Er enghraifft, gafaelodd un plentyn mewn camera a dweud wrth y staff a'r plant *“Everyone say cheese.”* Mae'r plant yn canolbwyntio am gyfnodau hir o amser mewn amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae ysgogol. Maent yn cychwyn eu chwarae eu hunain gan fod adnoddau diddorol o fewn eu cyrraedd, gan ysgogi chwilfrydedd wrth iddynt archwilio eu hamgylchedd. Er enghraifft, roedd y plant yn mwynhau'r gornel gartref lle'r oedd madarch go iawn wedi'u cyflwyno ar fwrdd torri bwyd gyda chyllyll.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i brofi gweithgareddau ac adnoddau sy'n addas i'w hoedran, sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol ac yn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau eu hunain yn hyderus. Yn ystod parti'r Coroni; wrth i standiau cacennau haenog a ceramig gael eu cario i'r bwrdd, ymatebodd y plant drwy ddweud *“Waw”.* Roeddent yn defnyddio pigynnau yn fedrus, i helpu eu hunain yn annibynnol i lenwi eu platiau. Maent yn aros eu tro, yn rhannu ac yn defnyddio geiriau megis ‘os gwelwch yn dda’ a ‘diolch’. Mae'r plant yn arllwys eu diodydd yn annibynol drwy ddefnyddio jygiau o ddŵr neu laeth, gan ddangos ymdeimlad o gyflawniad. Dros ginio, mae'r plant yn cynnwys iaith fathemategol yn ystod eu sgyrsiau am fflasgiau dŵr yn hyderus *“you have a bigger one and you have a smaller one.”* Gwelsom y plant a'r staff yn edrych allan o'r ffenestr ac yn canolbwyntio ar yr olygfa, gan bwyntio a sgwrsio am yr hyn y gallent ei weld, gyda'r rhyngweithio a'r drafodaeth hon yn para sawl munud. Mae'r plant yn mynd yn ôl ac ymlaen i'r toiled ar eu pen eu hunain. Maent

yn gyfarwydd â'r drefn hon ac yn mwynhau'r annibyniaeth o olchi a sychu eu dwylo gyda thywelion papur a rhoi'r rhain yn y bin.

| Gofal a Datblygiad | Rhagorol |
|---|---|

Mae'r staff yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol, ac yn eu rhoi ar waith mewn ffordd effeithiol ac arloesol. Maent yn nodi ac yn rheoli risgiau yn weithredol ac yn ymateb i'r plant yn gyson, sy'n garedig ac yn ystyriol. Mae pob aelod o'r staff yn wybodus am weithdrefnau diogelu ac yn hyderus yn eu cyfrifoldebau o ddiogelu'r plant yn llawn. Caiff arferion glanhau eu hymarfer drwy gydol y sesiynau. Er enghraifft, caiff y byrddau eu chwistrellu cyn ac ar ôl byrbrydau a gweithredir arferion hylendid yn ofalus. Mae'r holl staff yn wybodus am anghenion pob plentyn, gan gynnwys y rheini ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn barod eu cymwynas ac yn croesawu cyfleoedd i rannu enghreifftiau o arfer da. Er enghraifft, mae gweithdrefnau alergeddau a meddyginiaeth y lleoliad yn cael eu dilyn yn ofalus iawn. Gwelsom gofnodion wedi'u cwblhau i gefnogi'r prosesau hyn. Caiff dyletswyddau staff eu rhannu, eu dirprwyo, a'u gweithredu ar draws y tîm gyda gwiriadau agor a chau yn cael eu cwblhau ar rotas dyddiol. Dilynir gweithdrefnau newid cewynnau gyda phreifatrwydd ac urddas. Caiff y rhain eu cofnodi gyda chyfarpar diogelu personol cywir yn cael ei wisgo wrth newid pob cewyn.

Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r plant yn gyson, gan ddangos cynhesrwydd, caredigrwydd a chanmoliaeth, megis *“da iawn, well done”.* Mae'r staff yn parchu ei gilydd ac yn cyfathrebu'n gyson, gan ddangos cymorth a chydweithrediad effeithiol. Er enghraifft, maent yn cefnogi ei gilydd wrth lanhau ar ôl sesiwn y bore ac yn gosod ar gyfer sesiwn y prynhawn. Maent yn cyfathrebu'n hyderus ynghylch rhifau, negeseuon gan rieni ac amseroedd casglu, gan sicrhau bod y plant yn gweld ac yn clywed ymarferion parchus yn gyson. Mae'r staff yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ragorol ac yn sensitif i anghenion a phrofiadau'r plant. Maent yn ymateb i lefel y cymorth sydd ei angen ar gyfer anghenion unigol. Er enghraifft, pan nad oedd plentyn eisiau bod yn rhan o weithgaredd grŵp, roedd y staff yn gyflym i gynnig opsiynau gwahanol gerllaw. Gwelsom y staff yn cefnogi'r plant yn sensitif yn ystod sesiynau setlo.

Mae'r staff yn fodelau rôl rhagorol ac yn darparu enghreifftiau cyson o Gymraeg cyfyngedig megis *what would you like? Dŵr/water or llaeth/milk? Dŵr neu llaeth?”* Maent yn ymateb gydag egni a brwdfrydedd yn ystod y sesiynau canu a dawnsio gyda'r plant yn dweud *“oh da iawn pawb”.* Mae'r staff wedi creu amgylchedd gwaith prysur a hapus ac maent yn wirioneddol yn gofalu ac y cefnogi ei gilydd, yn parchu cryfderau ei gilydd ac yn ffynnu ar gyflawniadau'r plant yn eu gofal. Mae pob aelod o'r staff yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn hyrwyddo eu profiadau chwarae a dysgu yn gyson. Gwelsom y staff yn cynnal sesiwn brwsio dannedd hapus, gan ryngweithio'n llawn gydag anogaeth, gweithredoedd a chanu. Mae'r staff yn cefnogi'r plant yn eu chwarae yn yr awyr agored gyda chynwysyddion dŵr a

photeli chwistrellu ac yn defnyddio iaith fathemategol megis *“full”* ac *“empty”* er mwyn atgyfnerthu profiadau dysgu ymhellach. Mae gan staff ddealltwriaeth rhagorol o hawliau plant ac amrywiaeth ac maent yn ymrwymedig i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau chwarae a dysgu sy'n briodol i oedran y plant.

| **Yr Amgylchedd** | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau a pholisïau effeithiol ar waith i sicrhau diogelwch y plant. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Mae'r tu mewn i'r cartref yn groesawgar, yn gartrefol ac mewn cyflwr da gyda systemau gwresogi ac awyru da. Mae mynedfa glir gyda giât allanol sydd wedi'i gloi bob amser. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch y plant. Mae cofnodion ymarferion tân a phrosesau gwagio'r adeilad yn cael eu cynnal ac mae'r cofnodion yn gyfredol. Caiff y cyfarpar tân ei wasanaethau a chaiff y gwiriadau diogelwch ar gyfer y safle eu dogfennu'n gywir. Mae llyfr ymwelwyr a chofrestrau dyddiol yn sicrhau diogelwch pawb tra'u bod ar y safle.

Mae'r lleoliad mewn adeilad hunangynhwysol mewn ardal chwarae awyr agored caeedig. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnwys ardal chwarae dda er mwyn i'r plant symud yn rhydd. Caiff yr ardal awyr agored ei defnyddio drwy'r dydd, ym mhob tywydd. Mae adnoddau pob tywydd megis esgidiau a gwisgoedd diddos o fewn cyrraedd y plant mewn ardal glyd wrth y fynedfa ac maent yn dewis pryd i wisgo'r rhain yn annibynnol. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad asesiadau risg effeithiol ar gyfer gweithgareddau a meysydd yn ogystal â thaflenni asesiadau risg dyddiol ac wythnosol pwrpasol. Mae cegin agored sy'n cynnwys y cyfarpar priodol ar gael i'r staff yn unig, o'r brif ystafell chwarae ac yn darparu gweledadd i'r holl staff, gan sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n effeithiol wrth baratoi byrbrydau, diodydd a gweithgareddau. Gwelsom gyfarpar a phosteri yn y gegin a oedd yn darparu ar gyfer alergeddau penodol. Mae ardal doiledau'r plant yn breifat ac mae toiledau o faint addas yn y ciwbiclau a sinciau isel i helpu'r plant yn eu datblygiad personol. Caiff y plant eu goruchwylio bob amser ac mae'r staff yn deall lefelau risg ac yn gweithredu mewn ymateb iddynt. Caiff gofynion rheoleiddiol megis profion tân a chofrestrau dyddiol eu diweddaru pan fydd y plant neu'r staff yn cyrraedd neu'n gadael yr adeilad.

Mae'r ardal dan do yn gynllun agored lle mae egwyddorion clir o ddulliau cyfredol ac arloesol yn amlwg mewn amgylchedd tawel nad yw'n rhy brysur. Mae'r ardaloedd dan do mewn cyflwr da, yn groesawgar ac yn cynnwys amrywiaeth eang o ardaloedd pwrpasol. Caiff y plant fynediad diogel at amrywiaeth o adnoddau bywyd go iawn, o ansawdd da. Er enghraifft, y bwrdd gwisgo a'r drych yn y gornel cartref. Mae'r ardal awyr agored yn darparu ardaloedd chwarae diogel ar gyfer cysgodi, maes chwarae artiffisial, cyfarpar dringo a llwybrau ar gyfer reidio beiciau cydbwyso. Mae'r ardal hon yn cynnwys amrywiaeth o adnoddau o ansawdd da er mwyn datblygu sgiliau corfforol, datrys problemau a datblygu

chwilfrydedd y plant. Er enghraifft, mae'n cynnwys uned wal ddŵr gyda phibellau, cewyll a darnau o bren, ardaloedd gwneud marciau gyda sialciau a chornel stori wedi'i chysgodi gyda chlustogau lle mae'r llyfrau wedi'u storio mewn pot flodau mawr.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Rhagorol

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth arloesol ar gyfer y gwasanaeth. Maent yn cynnal ac yn rhannu ddatganiad o ddiben cyfredol, sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth yn gywir. Maent yn wybodus ac yn gyfrifol, gan gadw ffeil gynhwysfawr o ddogfennau, polisïau a gweithdrefnau sy'n rhagori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Maent yn sicrhau bod unrhyw newidiadau adolygu yn cael eu rhannu â'r staff a'r rhieni, ac yn cael eu rhoi ar waith yn eu hymarfer. Er enghraifft, ym mhrif fynedfa'r lleoliad, roedd hysbysfwrdd teuluoedd yn cynnwys y polisi diweddaraf sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn llunio adroddiad ar ansawdd y gofal. Maent yn effeithlon wrth sicrhau bod safbwyntiau'r rhieni, y staff a'r plant yn cael eu parchu ac yn cael eu hystyried yn ofalus i gynnal safonau a gweithredu gwelliannau parhaus a datblygiadau pellach. Maent yn cefnogi tîm o staff gweithgar sy'n gofalu ac yn gwrando'n ofalus ar yr hyn mae'r bobl a'r plant yn ei ddweud.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod cymarebau'r staff yn gywir bob amser, gan ddangos hyn ar waith yn ymarferol ac ar gofrestrau'r plant a'r staff. Mae ffeiliau'r staff yn gywir a chânt eu storio'n gyfrinachol ar system ganolog. Mae system sefydlu fanwl yn cynnwys proses ragorol sy'n cael ei gosod ar gyfnodau penodol yn ystod 12 wythnos gyntaf cyflogaeth. Dywedodd y staff newydd eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymgartrefu a chael cyfirfoldebau pellach dros amser. Caiff hyfforddiant a datblygiad proffesiynol ei reoli'n ofalus, gan sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cyflawni nodau personol. Yn ogystal, gall y staff fynychu gweithdai rheolaidd, er mwyn gwella eu hymarfer ymhellach. Mae gan y staff ddealltwriaeth glir o'u harferion dyddiol a'u cyfrifoldebau ac maent yn canmol y gefnogaeth a gânt. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad system arloesol ar gyfer arfarnu a goruchwylio'r staff. Mae hyn yn bwrpasol ac yn gyfredol, gyda thystiolaeth o gyfarfodydd wedi'u hamserlennu, adolygiadau llesiant ac arsylwadau cymheiriaid. Mae ganddynt dîm o staff profiadol sy'n hyderus gyda gofynion dyddiol y lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dirprwyo rolau'n effeithiol, gan rymuso staff â chyfrifoldebau y maent yn falch ohonynt. Er enghraifft, trefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau codi arian megis taith noddedig i Ffynnon Taf gyda theuluoedd.

Mae ethos ac egwyddorion y lleoliad wedi'u hymgorffori'n gadarn. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bartneriaethau cryf, gyda gwasanaeth casglu dibynadwy o'r ysgol gyfagos. Maent yn cydweithio'n agos â swyddogion cymorth, grwpiau clwstwr a gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n cefnogi plant â'u hanghenion dysgu unigol. Maent yn defnyddio'r gymuned leol er mwyn mynd am dro ac er mwyn mynd i'r parciau. Caiff cydberthnasau effeithiol eu sefydlu â'r rhieni a ddywedodd gymaint y mae eu plant yn mwynhau mynd yno a pha mor dda roeddent wedi ymgartrefu a datblygu. Mae'r rhieni yn canmol y gwasanaeth a'r staff ac yn gwerthfawrogi lefel y cyfathrebu drwy'r ap ac yn mwynhau gallu gweld gweithgareddau eu plant.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 20/07/2023